**Cameron James Curry**

1. A gaethoch chi eich enwebu ar gyfer y rôl? Os felly, allwch chi ddweud a oedd hyn yn ysgogiad i chi sefyll?

Do, ac dyma oedd y prif reswm i fi sefyll dros Swyddog Llesiant. Do'n i ddim yn gwybod bod y rolau llawn amser hon yn bodoli ac doedd gen i ddim cynlluniau ar ôl i fi raddio. Felly dyma fi'n rhoi cynnig arni a hen hanes yw'r gweddill.

2. Beth ydych chi'n ei wneud nawr? Pa fath o yrfa wnaethoch chi ddilyn/sydd gennych chi erbyn hyn?

Ar hyn o bryd, dwi'n gweithio mewn tafarn gwrw crefft yn fy nhref enedigol i. Fodd bynnag, dwi wrthi'n ymgeisio am radd feistr mewn Astudiaethau Rhywedd a Rhywioldeb ac yn chwilio am brofiadau gwirfoddoli gydag elusennau LDHTC+.

3. Beth yw eich hoff atgof o fod yn Swyddog?

Sioe Cameron a Sgitls – Cyflwyniad am Syndrom Tourette ar gyfer Mis Hanes Anableddau. Dyma oedd y tro cyntaf i fi drafod y pwnc o flaen cynulleidfa a byswn i wrth fy modd gwneud rhywbeth tebyg eto.

4. Sut gyngor fyddech chi'n rhoi i unrhyw sy'n sefyll dros y rôl?

Os byddwch chi'n llwyddiannus, manteisiwch arni i fynd allan a gwneud pethau gwahanol. Do'n i erioed yn meddwl y byswn i'n trafod Tourette's ar lwyfan o flaen cynulleidfa, rhywbeth dwi wedi'i gweld hi'n wirioneddol anodd ei drafod erioed... roedd o fudd mawr i fi a helpodd godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr, gwella fy sgiliau siarad a chyflwyno, a magu fy hyder. Ewch amdani a gwneud pethau!!!